

Cymorth ariannol i fyfyrwyr israddedig mewn addysg uwch 2020-21 Canllaw i Etholwyr

Ar gyfer dechrau ym mis Medi 2020



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/ymchwil

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 7373**
E-bost: **Lucy.Morgan@Senedd.Cymru**
Twitter: **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2020**

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cymorth ariannol i fyfyrwyr israddedig mewn addysg uwch 2020-21 Canllaw i Etholwyr

Ar gyfer dechrau ym mis Medi 2020

Awdur:
Lucy Morgan



Cynnwys

| | |
|---|----------|
| 1. Cyflwyniad..... | 1 |
| 2. Newidiadau ers mis Medi 2018..... | 1 |
| 3. Cyllid a COVID-19 | 2 |
| 4. Meini prawf cymhwysedd | 3 |
| 4.1. Ble ydych yn byw?..... | 3 |
| 4.1.a Myfyrwyr o'r UE..... | 3 |
| 5. 5. Cyrsiau amser llawn: help gyda ffioedd dysgu..... | 4 |
| 5.1. Prifysgolion a cholegau cyhoeddus a phreifat..... | 4 |
| 5.2. Symiau'r Benthyciad Ffioedd Dysgu..... | 4 |
| 5.3. Personél lluoedd arfog neu'r rhai sydd wedi ymadael â'r gwasanaeth | 5 |
| 5.4. Bwrsariaeth y GIG | 6 |
| 5.5. Bwrsariaeth gwaith cymdeithasol..... | 6 |
| 6. Cyrsiau amser llawn: help gyda chostau byw | 6 |
| 6.1. Grant Dysgu Llywodraeth Cymru a Benthyciad Cynhالياeth..... | 7 |
| 6.2. Trefniadau yng Nghymru i ganslo rhan o'r Benthyciad Cynhالياeth | 8 |
| 7. Help os ydych yn dilyn cwrs rhan-amser | 8 |

| | |
|---|-----------|
| 7.1. Ffioedd dysgu | 9 |
| 7.2. Costau byw | 9 |
| 8. Rwyf wedi astudio o'r blaen | 10 |
| 9. Rhagor o gymorth ariannol | 11 |
| 9.1. Grantiau dibynyddion | 11 |
| 9.1.a Grant gofal plant..... | 12 |
| 9.1.b Lwfans Dysgu i Rieni..... | 12 |
| 9.1.c Grant Oedolion Dibynnol | 12 |
| 9.2. Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl..... | 13 |
| 9.3. Grant teithio..... | 13 |
| 9.4. Cronfeydd prifysgolion neu sefydliadau | 14 |
| 9.5. Dawns, drama a cherdd..... | 14 |
| 10. Rhagor o wybodaeth | 15 |

1. Cyflwyniad

Mae'r canllaw hwn yn rhoi gwybodaeth am y cymorth ariannol sydd ar gael i fyfyrwyr cymwys sy'n bwriadu dilyn cwrs addysg uwch israddedig amser llawn neu ran-amser yn ystod Blwyddyn Academaidd 2020/21 ac sy'n byw yng Nghymru fel arfer. Gall cymorth ariannol myfyrwyr helpu gyda ffioedd dysgu a chostau byw.

Cyllid Myfyrwyr Cymru sy'n gyfrifol am asesu eich cymhwysedd ar gyfer cyllid.

Mae'r **Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr** yn gwneud taliadau ar ffurf grantiau neu fenthyciadau i chi (ar gyfer costau byw) ac i'r brifysgol neu'r coleg ar gyfer ffioedd dysgu.

Os gwnaethoch ddechrau astudio cyn mis Medi 2018, dylech edrych ar ganllawiau blaenorol neu gysylltu â Cyllid Myfyrwyr Cymru.

Mae'r rheolau ynghylch cymorth ariannol myfyrwyr yn hynod gymhleth gyda llawer o eithriadau ac amgylchiadau arbennig. Byddwch yn gweld bod yr ymadrodd "fel arfer" yn cael ei ddefnyddio'n aml yn y daflen ffeithiau hon. Y rheswm am hyn yw bod y ddogfen hon i fod yn ganllaw cyffredinol ac nid yw'n cwmpasu pob posibilrwydd o ran amgylchiadau neu hawliau.

Efallai na fyddwch yn gymwys i gael pob math o gymorth yn y canllaw hwn neu'r uchafsymiau a ddangosir, gan ddibynnu ar amgylchiadau eich aelwyd a'ch man astudio.

Ymwadiad: Gofynnir i Ymchwil y Senedd yn rheolaidd am gyllid myfyrwyr ac mae'r hysbysiad hwylus hwn yn nodi gwybodaeth am rai o'r cwestiynau mwyaf cyffredin. Ni fwriedir iddo fod yn ganllaw cynhwysfawr a dylech bob amser ofyn am gyngor gan Cyllid Myfyrwyr Cymru neu weithiwr proffesiynol cymwysedig sydd wedi'i deilwra i'ch sefyllfa unigol.

2. Newidiadau ers mis Medi 2018

Fel myfyriwr newydd ym mis Medi 2020, byddwch yn un o fyfyrwyr y drydedd flwyddyn i ddechrau ar y pecyn cymorth myfyrwyr israddedig newydd. Bydd y myfyrwyr a ddechreuodd eu cwrs cyn mis Medi 2018 ar yr hen becyn o hyd.

Mae'r pwyslais yn y pecyn newydd wedi newid i ganolbwyntio nawr ar eich helpu gyda'ch costau byw gan y dangoswyd mai hwn oedd y rhwystr mwyaf i astudio yn **Adroddiad Diamond** Llywodraeth Cymru.

Yn wahanol i'r hen system, nid yw incwm eich aelwyd yn effeithio ar gyfanswm y cyllid y gallwch ei gael, ond mae'n penderfynu ar y cydbwysedd rhwng swm grant dysgu Llywodraeth Cymru (nad yw i'w ad-dalu) a benthyciad (sydd i'w ad-dalu) y gallwch ei gael.

Mae cymorth ar gael o hyd i helpu gyda ffioedd dysgu, ond ar ffurf benthyciad y mae'n rhaid ei ad-dalu.

3. Cyllid a COVID-19

Mewn ymateb i bandemig COVID-19, **cyflwynodd Llywodraeth Cymru nifer o fesurau**, ar gyfer myfyrwyr israddedig newydd a'r rhai sy'n parhau na allant fynd i'w cyrsiau'n bersonol ar gyfer blwyddyn academiaidd 2020/21 oherwydd y coronafeirws.

Bydd y pecyn cymorth arferol, a amlinellir yn y papur briffio hwn, ar gael i fyfyrwyr a fyddai, fel arfer, yn mynd i'w cyrsiau'n bersonol ond mae'r addysg wedi mynd ar-lein, naill ai'n rhannol neu'n llawn. Bydd cyrsiau dysgu o bell hefyd yn cynnal y pecyn cymorth arferol.

Er mwyn bod yn gymwys i gael cymorth, mae meini prawf o ran lle rydych yn byw, gan gynnwys y dylai myfyriwr fod yn byw yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf ei gwrs. Mae **Llywodraeth Cymru wedi dweud**, pan fydd myfyrwyr yn cael eu hatal rhag bod yng Nghymru wrth astudio oherwydd COVID-19, na fydd hynny'n effeithio ar eu cymhwysedd.

Bydd cyllid myfyrwyr ar gyfer costau byw yn parhau i fod yn seiliedig ar lle mae'r myfyriwr yn byw y rhan fwyaf o'r amser. Os ydych yn byw gartref oherwydd COVID-19, bydd gennych hawl i gymorth o hyd ond gellir ailasesu hyn os bydd eich amgylchiadau'n newid. Er enghraifft, os yw COVID-19 yn cael effaith ar incwm eich aelwyd oherwydd diweithdra ac rydych yn credu y bydd incwm eich aelwyd yn gostwng o leiaf 15 y cant o'i gymharu ag incwm yr aelwyd a ddarparwyd gennych ar gyfer yr asesiad cymorth cychwynnol, cewch wneud cais i'ch hawl gael ei hailasesu. Gallai hyn arwain at newid y cymysgedd rhwng grant a benthyciad a darparu mwy o grant.

4. Meini prawf cymhwysedd

Gall y rheolau ynghylch cymhwysedd fod yn gymhleth. Nid diben y canllaw hwn yw cynnwys manylion am yr holl amgylchiadau unigol posibl. Ei ddiben yw bod yn ganllaw cyffredinol yn unig. Dylech geisio cyngor arbenigol gan Cyllid Myfyrwyr Cymru os nad ydych yn sicr am eich cymhwysedd. Cewch **ragor o wybodaeth yma.**

At ei gilydd, mae cymhwysedd yn dibynnu ar yr holl feini prawf a ganlyn:

1. Lle rydych yn byw (eich statws cenedligrwydd a phreswyliaeth)
2. Eich cwrs
3. Eich prifysgol neu eich coleg
4. Eich oedran

4.1. Ble ydych yn byw?

Yn gyffredinol, mae'n rhaid i chi fod:

- yn wladolyn y DU neu fod â 'statws preswilydd sefydlog', h.y. dim cyfyngiadau ar hyd yr amser y cewch aros yn y DU;
- yn byw yng Nghymru fel arfer;
- wedi bod yn byw yn y DU ers 3 blynedd cyn dechrau eich cwrs.

Os na fyddwch yn bodloni'r tri amod, cewch barhau i wneud cais am gymorth os ydych yn bodloni un o gategoriâu preswyliaeth eraill y DU. **Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol,** ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:

- yn wladolyn yr UE neu'n aelod o deulu gwladolyn yr UE;
- yn ffoadur;
- yn weithiwr mudol; neu
- dan ddiogelwch dyngarol o ganlyniad i gais aflwyddiannus am loches.

4.1.a Myfyrwyr o'r UE

Os ydych yn **wladolyn yr UE, gallwch gael help tuag at gost eich ffioedd ddysgu fel arfer.**

Mae **Llywodraeth Cymru wedi dweud** y bydd **gwladolion yr UE sy'n bwriadu astudio yng Nghymru** ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21 yn gymwys i dalu'r un ffioedd dysgu â myfyrwyr Cymru.

Mewn rhai amgylchiadau, gall gwladolion yr UE gael help gyda chostau byw hefyd. Mae hyn fel arfer os ydych wedi byw yn y DU ers o leiaf 3 blynedd cyn dechrau'ch cwrs, byddwch yn byw yn y DU ar ddiwrnod cyntaf eich cwrs, ac os nad cael addysg amser llawn oedd eich prif reswm dros fyw yn y DU ac mae'ch cwrs yn gymwys.

Mae rhagor o wybodaeth gan Cyllid Myfyrwyr Cymru i **wladolion yr UE i'w gweld yma.**

5. Cyrsiau amser llawn: help gyda ffioedd dysgu

Mae swm y **benthyciad ffioedd dysgu** y mae gennych hawl iddo yn dibynnu ar ble rydych am astudio. Nid yw'n destun prawf modd, sy'n golygu y gall unrhyw fyfyrwr cymwys gael yr uchafswm.

5.1. Prifysgolion a cholegau cyhoeddus a phreifat

Os ydych yn astudio mewn prifysgol neu goleg a ariennir yn gyhoeddus, gallant godi hyd at £9,000 y flwyddyn mewn ffioedd dysgu blynyddol yng Nghymru (a £9,250 mewn rhannau eraill o'r DU).

Mae **dau wahaniaeth mawr os ydych yn astudio mewn prifysgol neu goleg preifat.**

1. Nid oes **cyfyngiadau ar y ffioedd ddysgu** y gallant eu codi arnoch.

2. Mae **swm y benthyciad ffioedd dysgu y gallwch ei gael yn llai na phebaech yn mynd i brifysgol neu goleg cyhoeddus.** Mae hyn yn golygu, os byddant yn codi ffioedd sy'n fwy nag uchafswm y Benthyciad Ffioedd Dysgu y gallwch ei gael, **y bydd yn rhaid i chi dalu'r gwahaniaeth eich hunan.**

Pan fyddwch yn astudio gyda'r math hwn o ddarparwr, dim ond os yw eich cwrs wedi'i ddynodi'n arbennig gan Lywodraeth Cymru y gallwch gael Benthyciad Ffioedd Dysgu. Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn cadw rhestr o gyrsiau, felly rydym yn argymhell **cysylltu â'r corff** am ragor o wybodaeth.

5.2. Symiau'r Benthyciad Ffioedd Dysgu

Telir y Benthyciad Ffioedd Dysgu **yn uniongyrchol i'r sefydliad lle rydych yn astudio.** Mae rheolau cymhleth ynglŷn â faint y mae'n rhaid i chi ei dalu'n ôl os byddwch yn gadael eich cwrs cyn ei gwblhau. Dylech **edrych ar wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru** os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth am hyn.

Mae'r tabl isod yn dangos lefelau'r ffioedd dysgu a symiau'r Benthyciad Ffioedd Dysgu.

Tabl 1: Ffioedd dysgu a Benthyciadau Ffioedd Dysgu

| | Uchafswm y gellir ei godi arnoch | Benthyciad Ffioedd Dysgu sydd ar gael i chi (nad yw'n destun prawf modd) |
|---|---|---|
| <i>Yn astudio mewn prifysgol neu goleg cyhoeddus yng Nghymru</i> | £9,000 | £9,000 |
| <i>Yn astudio mewn prifysgol neu goleg cyhoeddus yn Lloegr, Gogledd Iwerddon neu'r Alban</i> | £9,250 | £9,250 |
| <i>Yn astudio mewn prifysgol neu goleg preifat yn y DU ar gwrs sydd wedi'i ddynodi gan Lywodraeth Cymru</i> | Dim cyfyngiadau ar yr hyn y gallant ei godi | £6,165 (os nad yw hyn yn talu eich ffi gyfan, mae'n rhaid i chi dalu'r gwahaniaeth) |
| <i>Yn astudio mewn darparwr cofrestredig yn Lloegr</i> | £9,250 | £9,250 |

Ffynhonnell: Cyllid Myfyrwyr Cymru

5.3. Personél lluoedd arfog neu'r rhai sydd wedi ymadael â'r gwasanaeth

Os ydych yn gwasanaethu yn y lluoedd arfog (personél y gwasanaeth) ar hyn o bryd neu os ydych wedi ymadael â'r gwasanaeth, efallai y bydd modd i chi hawlio Credydau Dysgu Uwch dan y **Cynllun Credydau Dysgu Uwch**, a/neu fanteisio ar y cynllun Addysg Bellach/Addysg Uwch a ariennir yn gyhoeddus.

Mae cymhwysedd a threfniadau hawlio'n gymhleth, ac mae gwahaniaeth rhwng yr hyn sydd ar gael i **bersonél presennol y gwasanaeth** a'r **rhai sydd wedi ymadael â'r gwasanaeth**. Ceir rhagor o wybodaeth am y cynlluniau Addysg Bellach/Addysg Uwch a ariennir yn gyhoeddus **yma i bersonél presennol y gwasanaeth** ac **yma i'r rhai sydd wedi ymadael â'r gwasanaeth**.

Mae **Cyfarwyddyd a Chanllawiau Hyfforddiant ac Addysg y Weinyddiaeth Amddiffyn** yn nodi manylion llawn ar gymhwysedd a symiau..

5.4. Bwrsariaeth y GIG

Os ydych yn dilyn cwrs a fydd yn arwain at gymhwyster mewn meddygaeth, deintyddiaeth neu ofal iechyd, mae'n bosibl y gallwch gael bwrsariaeth gan GIG Cymru. Mae Bwrsariaeth y GIG yn cael ei hasesu a thelir amdani gan Gynllun Bwrsariaeth y GIG, nid gan Cyllid Myfyrwyr Cymru.

Bydd y GIG yn talu'r ffioedd dysgu'n uniongyrchol. Ni chewch gymorth ar gyfer ffioedd dysgu gan **Cyllid Myfyrwyr Cymru** oni bai y dewiswch astudio mewn man arall yn y DU lle na chynigir bwrsariaeth gofal iechyd.

Gallwch gael hyd at £4,405 mewn Benthyciad Cynhaliaeth gan Cyllid Myfyrwyr Cymru os ydych yn dilyn cwrs a ariennir gan y GIG yng Nghymru.

Dylech **gysylltu â Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr GIG Cymru** am ragor o wybodaeth.

5.5. Bwrsariaeth gwaith cymdeithasol

Os ydych yn dilyn cwrs gradd israddedig neu gwrs gradd Meistr cymeradwy mewn gwaith cymdeithasol, gallwch wneud cais am bwrsariaeth gwaith cymdeithasol gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Gall myfyrwyr sy'n dilyn cwrs Meistr cymeradwy hefyd gael bwrsariaeth ychwanegol ar sail asesiad incwm.

I gael rhagor o wybodaeth, gan gynnwys meini prawf cymhwysedd, gallwch gysylltu â **Thîm Ariannu Myfyrwyr a Grantiau Gofal Cymdeithasol Cymru.**

6. Cyrsiau amser llawn: help gyda chostau byw

Mae help gyda chostau byw ychydig yn fwy cymhleth na Benthyciadau Ffioedd Dysgu. **Mae incwm eich aelwyd yn cael ei ystyried**, ond dim ond at ddibenion **penderfynu ar y rhaniad rhwng Grant Dysgu Llywodraeth Cymru, a benthyciad i'w ad-dalu – nid ar gyfer penderfynu ar yr uchafswm y gallwch ei gael.**

6.1. Grant Dysgu Llywodraeth Cymru a Benthyciad Cynhaliaeth

Mae **Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (GDLIC) yn seiliedig ar incwm eich aelwyd**, lle byddwch yn astudio a lle byddwch yn byw. Fodd bynnag, **gall y rhan fwyaf o fyfyrwyr gael grant am o leiaf £1,000**, nad oes rhaid i chi ei dalu'n ôl.

Daw'r **gweddill o'ch cymorth costau byw o'r Benthyciad Cynhaliaeth**. Gallwch gael help ychwanegol mewn amgylchiadau penodol, megis os oes gennych ddibynyddion. Esbonnir hyn yn ddiweddarach yn y canllaw.

Bydd **swm** blynyddol cyffredinol y cyllid y gallwch ei gael yn **gymysgedd o GDLIC, ynghyd â'r Benthyciad Cynhaliaeth os hoffech ei gael**. Caiff hyn **ei dalu'n uniongyrchol i'ch cyfrif banc** ar ddechrau pob tymor, ond dim ond ar ôl i chi gofrestru ar gyfer eich cwrs ac ar ôl i'ch presenoldeb gael ei gadarnhau gan eich prifysgol neu eich coleg.

Mae'r tabl isod yn dangos yr uchafswm y gall y rhan fwyaf o fyfyrwyr cymwys ei hawlio a sut y mae incwm eich aelwyd yn effeithio ar y cymysgedd o GDLIC a Benthyciad Cynhaliaeth. Mae golofn grant yn y tabl yn cynnwys isafswm y grant a grybwyllwyd uchod, sef £1,000.

Tabl 2: Cymysgedd o grant a benthyciad

| Incwm y cartref | Yn byw gyda'ch rhieni | | Yn byw oddi cartref ac yn astudio y tu allan i Lundain | | Yn byw oddi cartref ac yn astudio yn Llundain | |
|-----------------|-----------------------|------------|--|------------|---|------------|
| | Grant | Benthyciad | Grant | Benthyciad | Grant | Benthyciad |
| £18,370 or less | £6,885 | £1,450 | £8,100 | £1,710 | £10,124 | £2,136 |
| £25,000 | £5,930 | £2,405 | £6,947 | £2,863 | £8,643 | £3,617 |
| £35,000 | £4,488 | £3,847 | £5,208 | £4,062 | £6,408 | £5,852 |
| £45,000 | £3,047 | £5,288 | £3,469 | £6,341 | £4,174 | £8,086 |
| £59,200 or more | £1,000 | £7,335 | £1,000 | £8,810 | £1,000 | £11,260 |
| Cyfanswm | £8,335 | | £9,810 | | £12,260 | |

Ffynhonnell: Cyllid Myfyrwyr Cymru

Fel y gwelwch, hyd yn oed os oes gennych yr incwm aelwyd isaf, sef £18,370 neu lai, bydd arnoch angen Benthyciad Cynhaliaeth bach er mwyn i chi gael uchafswm eich hawl.

Yn yr un modd, os oes gennych yr incwm aelwyd uchaf, sef £59,200 neu fwy, gallwch gael o leiaf £1,000 yn GDLIC.

Codir llog arnoch ar gyfer eich Benthyciad Cynhaliaeth o'r diwrnod cyntaf y telir yr arian i'ch cyfrif banc nes i'r benthyciad gael ei ad-dalu'n llawn neu ei ganslo.

6.2. Trefniadau yng Nghymru i ganslo rhan o'r Benthyciad Cynhaliaeth

Os cymerwch Fenthyciad Cynhaliaeth yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21, pan ddechreuwch ad-dalu'r balans, gallai Llywodraeth Cymru ganslo hyd at £1,500 o falans eich benthyciad.

Mae rhagor o wybodaeth gan [Cyllid Myfyrwyr Cymru](#).

7. Help os ydych yn dilyn cwrs rhan-amser

Ar gyfer cyrsiau israddedig rhan-amser, mae'r pecyn yn fersiwn pro rata o'r pecyn amser llawn uchod, h.y. gall myfyrwyr cymwys gael Benthyciad Ffioedd Dysgu pro rata ar gyfer ffioedd dysgu, GDLIC pro rata a Benthyciad Cynhaliaeth pro rata ar gyfer help gyda chostau byw.

Mae'r cymorth y gallwch ei chael yn dibynnu ar nifer o feini prawf a nodwyd gan **Cyllid Myfyrwyr Cymru**. Yn ogystal â'r amodau a nodir yn yr adran Meini Prawf Cymhwysedd o'r canllaw hwn, mae dwysedd y cwrs yn cael ei ystyried.

Ystyr dwysedd y cwrs yw canran yr amser rydych yn astudio o'i gymharu â chwrs amser llawn. Dwysedd cwrs amser llawn yw 100 y cant. Fel arfer, dwysedd cyrsiau rhan-amser fydd 25, 50 neu 75 y cant.

Fel arfer, ni allwch gael cymorth i fyfyrwyr os yw dwysedd eich cwrs yn llai na 25 y cant.

7.1. Ffioedd dysgu

Fel cyrsiau amser llawn, mae uchafswm **Benthyciad Ffioedd Dysgu** y gallwch ei gael. Mae uchafsymiau'r Benthyciad Ffioedd Dysgu i'w gweld yn y tabl isod.

Tabl 3: Benthyciadau Ffioedd Dysgu ar gyfer cyrsiau rhan-amser

| Uchafswm Benthyciad Ffioedd Dysgu i fyfyrwyr rhan-amser 2020/21 | |
|--|--------|
| <i>Yn astudio mewn prifysgol neu goleg cyhoeddus yng Nghymru</i> | £2,625 |
| <i>Yn astudio mewn prifysgol neu goleg cyhoeddus yn Lloegr, Gogledd Iwerddon neu'r Alban</i> | £6,935 |
| <i>Yn astudio mewn prifysgol neu goleg preifat yn Lloegr, Gogledd Iwerddon neu'r Alban</i> | £4,625 |

Ffynhonnell: Cyllid Myfyrwyr Cymru

7.2. Costau byw

Yn debyg i fyfyrwyr amser llawn, gallwch gael help gyda'ch **costau byw** ar ffurf Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (GDLIC) a Benthyciad Cynhaliaeth. Mae'r rhain

yn ddarostyngedig i'r uchafsymiau fesul blwyddyn gyda'r rhaniad rhwng grant a benthyciad yn seiliedig ar incwm eich aelwyd.

I fyfyrwyr rhan-amser, mae cyfanswm y cyllid y gallwch ei gael yn dibynnu ar ddwysedd y cwrs. Mae'r tabl isod yn dangos enghreifftiau o'r uchafswm y gallwch ei gael yn seiliedig ar ddwysedd cwrs ac incwm aelwyd, ynghyd â balans y grant i'r benthyciad.

Tabl 4: Symiau costau byw myfyrwyr rhan-amser

| Examples of course intensity | Examples of household income | Welsh Government Learning Grant | Maintenance Loan | Total |
|------------------------------|------------------------------|---------------------------------|------------------|------------------|
| 25% | £25,000 or less | £1,500 | £311.25 | £1,811.25 |
| | £45,000 | £769.25 | £1,042 | |
| | £59,200 or more | £250 | £1,561.25 | |
| 50% | £25,000 or less | £3000 | £622.50 | £3,622.50 |
| | £45,000 | £1,538.50 | £2,084 | |
| | £59,200 or more | £500 | £3,122.50 | |
| 75% or more | £25,000 or less | £4,500 | £933.75 | £5,433.75 |
| | £45,000 | £2,307.75 | £3,126 | |
| | £59,200 or more | £750 | £4,683.75 | |

Ffynhonnell: Cyllid Myfyrwyr Cymru

8. Rwyf wedi astudio o'r blaen

Os oes gennych gymhwyster israddedig ac rydych yn ystyried dilyn cymhwyster ôl-raddedig, mae **pecyn cymorth arall ar gael i** chi.

Ceir rheolau cymhleth ar yr hyn y mae gennych hawl iddo os ydych yn ystyried dilyn cwrs sydd â lefel gyfatebol i un rydych wedi'i ddilyn eisoes, ni waeth a ydych wedi'i gwblhau ai peidio. Maent yn gymwys i gyrsiau amser llawn a rhan-amser.

Yn gyffredinol, mae gennych hawl i gymorth ar gyfer pob blwyddyn o'ch cwrs, ynghyd â blwyddyn arall. **Os ydych wedi dilyn cwrs o'r blaen, mae'n bosibl y caiff eich hawl ei lleihau yn ôl nifer y blynyddoedd rydych wedi astudio o'r blaen.** Mae hyn yn wir hyd yn oed os na wnaethoch gais am Fenthyciad Ffioedd Dysgu na chymorth costau byw. **Hefyd, mae'n bosibl na fyddwch yn gymwys am gymorth os oes gennych radd anrhydedd o'r DU eisoes.**

Rhoddir enghreifftiau ar **wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru.**

Fodd bynnag, mae nifer o eithriadau ar gyfer cyrsiau astudio penodol. Mae'r rhain i fyfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau mewn **meddygaeth, deintyddiaeth, milfeddygaeth, pensaernïaeth, gwaith cymdeithasol a Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA) israddedig.** Bydd myfyrwyr yn parhau i fod yn gymwys i gael benthyciadau ar gyfer costau byw, hyd yn oed os oes ganddynt gymhwyster cyfatebol neu ar lefel uwch eisoes.

Hefyd, mae eithriadau os **na wnaethoch gwblhau eich cwrs oherwydd rhesymau personol cymhellol.** Bydd angen i chi **roi tystiolaeth o hyn.** Gan ddibynnu ar eich amgylchiadau, gallai hyn fod ar ffurf tystiolaeth feddygol gan eich meddyg teulu, gan y gwasanaethau cymdeithasol neu gan wasanaeth cynghori myfyrwyr eich coleg neu'ch prifysgol sy'n cadarnhau eich argyfwng personol neu deuluol. Bydd y rhain yn cael eu hystyried yn fanwl cyn gwneud penderfyniad.

Os ydych eisoes wedi dilyn cwrs addysg uwch ar lefel israddedig, dylech **siarad â Cyllid Myfyrwyr Cymru cyn gwneud penderfyniadau a gweld a ydych yn cael eich cynnwys fel eithriad.**

9. Rhagor o gymorth ariannol

Mae **grantiau ychwanegol** ar gael i'ch helpu os oes gennych amgylchiadau penodol sy'n golygu bod arnoch angen cymorth ychwanegol. Mae'r cyllid sydd ar gael i fyfyrwyr amser llawn a rhan-amser yn wahanol. **Mae'r ffigurau mewn cromfachau'n cyfeirio at fyfyrwyr rhan-amser.**

Mae'r rhain oll ar ben unrhyw hawl i Fenthyciad Ffioedd Dysgu a Grant Dysgu Llywodraeth Cymru a Benthyciad Cynhaliath.

9.1. Grantiau dibynyddion

Mae'r rhain yn grantiau i fyfyrwyr sydd â phlant dibynnol neu oedolion dibynnol. Maent ar gael i fyfyrwyr amser llawn a rhan-amser, gan ddibynnu ar ddwysedd y cwrs.

9.1.a Grant gofal plant

Mae hwn ar gael i fyfyrwyr i'w helpu i dalu **costau gofal plant cymeradwy neu gofrestredig mewn perthynas â phlant dan 15 oed, neu blant dan 17 oed os oes ganddynt anghenion addysgol arbennig.**

Mae'n bosibl defnyddio'r grant i **dalw am hyd at 85 y cant o'ch costau gofal plant**, hyd at **£174.22 (£130.67 i fyfyrwyr rhan-amser) yr wythnos** ar gyfer **un plentyn** neu hyd at **£298.69 (£224.02 i fyfyrwyr rhan-amser) yr wythnos** ar gyfer **dau neu ragor o blant.**

Ni fyddwch yn gymwys i gael y grant hwn os ydych chi neu'ch partner yn hawlio'r canlynol:

- yr elfen gofal plant o'r Credyd Treth Gwaith neu Gredyd Cynhwysol;
- gofal plant di-dreth gan Cyllid a Thollau EM; neu
- grantiau gofal plant a ariennir gan y GIG.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan Cyllid Myfyrwyr Cymru i fyfyrwyr **amser llawn a rhan-amser.**

9.1.b Lwfans Dysgu i Rien

Diben hyn yw **helpu myfyrwyr sydd â phlant dibynnol** a'ch helpu i dalu costau sy'n ymwneud â'ch cwrs. Mae'n bosibl y gall **myfyrwyr amser llawn gael hyd at £1,766.**

Mae'r swm y gall myfyrwyr rhan-amser ei gael yn seiliedig ar ddwysedd eich cwrs. Yr **uchafswm y gallech ei gael yw £1,324.50 os yw dwysedd eich cwrs yn 75 y cant neu fwy.** Bydd y swm yn llai os yw dwysedd eich cwrs yn is.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan Cyllid Myfyrwyr Cymru i fyfyrwyr **amser llawn a rhan-amser.**

9.1.c Grant Oedolion Dibynnol

Diben hyn yw helpu **myfyrwyr sydd ag aelod o'r teulu y maent yn ei gefnogi'n ariannol, ond nad yw'n blentyn iddynt.** Ni all eu hincwm fod yn fwy na £3,923 y flwyddyn.

Yr uchafswm sydd ar gael yw **£3,094 y flwyddyn i fyfyrwyr amser llawn.** Mae'r uchafswm y gall **myfyrwyr rhan-amser** ei gael yn **dibynnu ar ddwysedd eu cwrs.** Yr uchafswm y gallech ei gael yw **£2,320.50 y flwyddyn** os yw **dwysedd eich cwrs yn 75 y cant neu fwy.** Bydd y swm yn llai os yw dwysedd eich cwrs yn is.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan Cyllid Myfyrwyr Cymru i fyfyrwyr **amser llawn a rhan-amser.**

9.2. Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl

Mae Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl (LFA) yn **ffynhonnell arall o gyllid** sydd ar gael i **fyfyrwyr sydd ag anabledd,** gan gynnwys cyflwr iechyd tymor hir, cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu.

Nid yw'r lwfans **yn dibynnu ar incwm eich aelwyd.** Mae pedwar math o lwfans ar gael fel y dangosir yn y tabl isod:

Tabl 5: Mathau o LFA gyda'r uchafsymiau sydd ar gael

| Math o lwfans | Uchafsymiau i fyfyrwyr amser llawn | Uchafsymiau i fyfyrwyr rhan-amser |
|--|---|---|
| <i>Cynorthwydd anfeddygol</i> | <i>£23,258 y flwyddyn</i> | <i>£17,443 y flwyddyn</i> |
| <i>Cyfarpar arbenigol</i> | <i>£5,849 ar gyfer y cwrs cyfan</i> | <i>£5,849 ar gyfer y cwrs cyfan</i> |
| <i>Lwfans cyffredinol</i> | <i>£1,954 y flwyddyn</i> | <i>£1,465 y flwyddyn</i> |
| <i>Costau teithio sy'n ymwneud ag anabledd</i> | <i>Costau teithio ychwanegol rhesymol sy'n codi o ganlyniad i gyflwr y myfyriwr</i> | <i>Costau teithio ychwanegol rhesymol sy'n codi o ganlyniad i gyflwr y myfyriwr</i> |

Ffynhonnell: Cyllid Myfyrwyr Cymru

Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan Cyllid Myfyrwyr Cymru i fyfyrwyr **amser llawn** a **rhan-amser**, gan gynnwys sut i wneud cais am LFA.

9.3. Grant teithio

Os ydych yn mynd i leoliad clinigol yn y DU neu'n astudio dramor fel rhan o'ch cwrs, mae'n bosibl y byddwch yn gymwys i gael **grant i'ch helpu i dalu costau teithio**.

Gall y grant teithio helpu i dalu **costau sy'n ymwneud â theithio i leoliad yr hyfforddiant clinigol** yn y DU neu'r wlad y bydd yn rhaid i chi deithio iddi os byddwch yn **astudio dramor**.

Disgwylir i chi **dalur £303 cyntaf o gostau teithio eich hunan** os yw **incwm eich aelwyd yn is na £59,200**. Disgwylir i chi dalur £1,000 cyntaf o gostau teithio eich hunan os yw incwm eich aelwyd yn £59,200 neu fwy.

9.4. Cronfeydd prifysgolion neu sefydliadau

Mae holl brifysgolion Cymru (a'r rhan fwyaf o sefydliadau eraill y DU) yn cynnig rhyw fath o **gymorth ariannol dewisol**. Mae'r cynlluniau'n defnyddio nifer fawr o enwau, ond cyfeirir atynt yn aml fel **cronfeydd caledi, bwrsariaethau neu ysgoloriaethau**.

Maent at **amrywiaeth eang o ddibenion**: rhai i wobrwyo **rhagoriaeth academiaidd neu ragoriaeth arall** a rhai i'ch helpu i dalu **eich costau byw** neu

eich helpu pan fydd gennych drafferth ariannol. Gellir gwneud cais am rai cyn dechrau, eraill dim ond yn ystod eich cwrs os yw eich amgylchiadau'n caniatáu hynny. **Bydd rhai'n grantiau, gall eraill fod yn fenthyciadau.** Bydd yn **dibynnu'n llwyr ar y sefydliad** lle rydych yn astudio gan fod y cynlluniau hyn wedi'u cynllunio a'u cynnal gan y sefydliadau eu hunain. **Hwy sy'n pennu'r rheolau.**

Dylech edrych ar wefan **eich sefydliad** i weld pa gymorth neu ddyfarniadau sydd ar gael. Mae'n syniad da gwneud hyn **cyn i chi ddechrau astudio** yno rhag ofn bod cymorth ychwanegol y gallech ei gael yn ystod eich blwyddyn gyntaf. Isod, ceir rhai enghreifftiau i ddangos y mathau o gronfeydd sydd ar gael:

- Mae gan **Brifysgol Bangor** gronfa caledi a chronfa caledi digidol newydd. Mae'r gronfa caledi'n rhoi blaenoriaeth i fyfyrwyr â phlant, y rhai ag anabledau a myfyrwyr digartref.
- Mae **Prifysgol Abertawe** yn cynnig ystod o gronfeydd caledi i fyfyrwyr ag anawsterau ariannol ar gyfer costau llety, llyfrau a chyfarpar, gofal plant, teithio, biliau cyfleustodau a bwyd.

9.5. Dawns, drama a cherdd

Mae'r cynllun DaDa (Dyfarniadau Dawns a Drama) yn cynnig cymorth seiliedig ar asesiad incwm ar gyfer ffioedd dysgu a chostau byw mewn nifer o sefydliadau dawns a drama preifat yn Lloegr.

Bwriedir i gyllid DaDa gyfrannu at y costau i unigolion dawnus sydd am ddod yn actorion a dawnsywyr proffesiynol. Mae symiau'r grant yn dibynnu ar incwm yr aelwyd a lle mae'r myfyriwr yn byw ac yn astudio. Mae rhagor o wybodaeth am gynllun 2020-21 ar gael ar **wefan GOV.UK.**

Hefyd, mae gan Lywodraeth y DU **Gynllun Cerdd a Dawns** sy'n cynnig cymorth ariannol ar gyfer addysg neu hyfforddiant arbenigol i gerddorion a dawnsywyr ifanc. Mae'r grantiau'n helpu gyda ffioedd mewn nifer o ysgolion a chanolfannau hyfforddi uwch.

Mae'r **Ymddiriedolaeth Celfyddydau Ieuencid Genedlaethol yn cynnig bwrsariaethau** gwerth hyd at £1,000 ar gyfer dawns, drama a cherdd i bobl ifanc 12-25 oed. Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer bwrsariaeth, mae'n rhaid i chi fodloni nifer o feini prawf, gan gynnwys bod yn ddinesydd y DU a gallu dangos dawn ac ymroddiad i wella'ch sgiliau. Mae rhagor o **wybodaeth am gymhwysedd** a **sut i wneud cais** i'w gweld ar ei gwefan.

Ceir rhagor o sefydliadau sy'n cynnig cyngor a grantiau ar **wefan Academy of Creative Training.**

10. Rhagor o wybodaeth

Dylech gysylltu â Cyllid Myfyrwyr Cymru i gael cyngor ar eich amgylchiadau penodol. Gall roi gwybodaeth a chyngor swyddogol. Rhif ffôn Cyllid Myfyrwyr Cymru yw **0300 200 4050**.

Mae ganddo ystod o [adnoddau ar gyfer 2020-21](#) ac mae'n debygol y caiff rhagor eu hychwanegu yn ystod y flwyddyn i ddod.

Mae [Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr](#) hefyd yn rhoi gwybodaeth am gyllid a materion ariannol myfyrwyr.